



Artistiaid Anhygoel a Gwyddonwyr Gwych

Eco-Schools



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Cyflwyniad

Ar ôl y gweithdy cyflwyno rhithiol yn y bore, bydd gennych chwe gweithgaredd yn seiliedig ar her.

Bydd tri yn ymwneud â chelf a thri yn ymwneud â gwyddoniaeth er mwyn i'r dosbarth weld coed o safbwyntiau gwahanol. Bydd gweithdy rhithiol am 30 munud ar ddiwedd y dydd er mwyn rhannu a dathlu'r gwaith yr ydych wedi ei gwblhau.

Rhagwelir y byddwch yn creu arddangosfa, llyfr lloffion neu gyflwyniad power point gyda'r gwaith wedi ei gwblhau ond mae croeso i chi ei gyflwyno pa bynnag ffordd sydd yn gweithio i'ch dosbarth chi. Byddem wrth ein bodd yn gweld celf yn ymwneud â choed, yn clywed cerddi am goed ac yn trafod yr holl greaduriaid rhagorol yr ydych wedi eu gweld. Cofiwch, bydd yr heriau yn yr awyr agored felly gwnewch yn siŵr eich bod yn barod am y tywydd gyda'r esgidiau priodol a dillad cynnes/sydd yn dal dŵr.

Rydym yn eich annog i wneud y chwe her, ond efallai na fydd amser gennych, felly cyflawnwch gymaint o'r heriau ag y teimlwch sydd yn briodol. Mae sawl ffordd o gwblhau'r heriau. Un ffordd fyddai rhannu'r dosbarth yn chwech grŵp a rhoi un her benodol i bob grŵp yna cylchdroi'r dosbarth cyfan fel eu bod yn cwblhau'r gweithgareddau i gyd.

Efallai na fydd gwneuthuriad eich dosbarth yn golygu bod hyn yn bosibl felly ffordd arall fyddai gwneud un her gyda'r dosbarth cyfan a chwblhau gymaint o'r heriau ag y gwelwch yn dda.

Yn y bôn, defnyddiwch ddull sydd yn gweithio i'ch dosbarth chi.

Artistiaid Anhygoel



Gweithgaredd: Ansawdd Rhisgl

Amser: 15 munud

Nodau Byd-eang:

Nod Byd-eang 3 – Iechyd a Llesiant Da

Nod Byd-eang 15 – Bywyd ar y Tir

Nod: Gwerthfawrogi ansawdd gwahanol rhisgl coed a deall y gall rhisgl fod yn un o'r offer a ddefnyddir i adnabod rhywogaethau o goed yn y gaeaf

Adnoddau: Papur Plaen neu bapur siwgrwr lliw golau

Siarcol/creonau cwyr/pensiliau

Ffolder i gadw'r rhwbiadau rhisgl

Gwybodaeth gefndir:

Y peth cyntaf y byddwch yn sylwi am goeden yw ei dail.

Dyma'r agwedd hawsaf i edrych arni wrth geisio gwahaniaethu rhwng derwen ac onnen.

Un anhawster yw os ydyw yn goeden frasddeiliog yn y gaeaf, does dim dail! Felly, strategaeth arall yw edrych ar rhisgl y goeden. Edrychwch yn ofalus ac fe gewch eich synnu gan liwiau ac ansawdd gwahanol. Gall fod yn goeden â rhychau a chwysau dwfn fel derwen. Cymharwch hynny â rhisgl llwyd, llyfn ffawydden.

Bydd rhwbiad rhisgl nid yn unig yn waith celf ynddo'i hun, ond bydd ei archwilio'n fanwl hefyd yn helpu i adnabod coeden.

Gweithgaredd:

1. Dewch o hyd i goeden ar dir yr ysgol â rhisgl diddorol.
2. Cymerwch eich darn o bapur a'i wasgu yn erbyn rhisgl y goeden.
3. Cymerwch eich siarcol/creonau cwyr/pensel a'i rwbio yn erbyn y papur, gan bwysu'n ysgafn.
4. Pan fyddwch wedi llenwi'r papur ac yn teimlo bod eich rhwbiad rhisgl yn ddigon trwm, tynnwch y papur ac edrychwch yn ofalus ar y patrymau.
5. Ailadroddwch y broses ar sawl coeden wahanol. Pa un yw eich hoff un? Pam? Sut maent yn wahanol?
6. Arbrofwch gyda lliwiau gwahanol a rhowch y rhwbiadau rhisgl i'r gwyddonwyr i'w defnyddio i adnabod y coed neu rhowch gynnig arni eich hun.

Dibenion Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae'r byd o'n hamgylch yn llawn pethau byw sydd yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Artistiaid Anhygoel



Gweithgaredd: Artistiaid Tirwedd – Cyfleu Harddwch
Coed

Amser: 30 munud

Nodau Byd-eang:

Nod Byd-eang 3 – Iechyd a Llesiant Da

Nod Byd-eang 15 – Bywyd ar y Tir

Nod: Archwilio'r mathau gwahanol o goed a gwerthfawrogi eu harddwch a'r effaith gadarnhaol y maent yn ei chael ar ein tirwedd.

Adnoddau: Papur plaen neu bapur siwgwr lliw golau

Siarcol/pennau graffeg/pensiliau

Clipfyrddau

Ffolder i gadw lluniau wedi eu cwblhau

I-padiau

Gwybodaeth gefndir

Gall celf arsylwi fod yn ffordd wych o archwilio siâp sylfaenol coed sydd yn helpu i adnabod coed. Gan fod pob coeden yn unigolyn, nid yw enwi siapiau coed yn wyddor benodol, ond gellir eu rhannu i'r grwpiau bras canlynol:

- Coed Siâp Crwn/Hirgrwn – Llawer o ddail yn aml e.e. Masaren Fach/Onnen
- Coed Siâp Colofnog – Tal a thenau e.e. Poplysen Lombardi
- Coed Siâp Ymledol – Siâp agored ac afreolaidd e.e. Ceiriosen Ddu
- Coed Siâp Wylodus – Canghennau hir yn hongian i lawr e.e. Helygen Wylodus
- Coed Siâp Pyramid – Yn fwy llydan ar y gwaelod e.e. Cedrwydden Goch

Gall eistedd a thynnu llun coed/tirwedd fod yn anhygoel i leihau straen a gorbryder. Mae llawer o ymchwil yn dangos bod cyswllt â natur yn dda ar gyfer llesiant ac mae llawer o'r gwaith ymchwil hwn wedi cael ei wneud mewn coetir. A byddwch mewn cwmni artistig da yn paentio/tynnu llun coed. Mae arlunwyr fel Monet, Van Gogh, Turner a Constable i gyd wedi rhoi cynnig arni! Beth am ymchwilio i rai o'r darluniau tirlun enwog

Gweithgaredd:

1. Dewch o hyd i le cyfforddus i eistedd yn ôl a chymryd amser i arsylwi'r goeden yr ydych yn mynd i'w braslunio.
2. Penderfynwch ar siâp cyffredinol y goeden. A yw'n grwn, siâp pyramid neu'n wylofus? Brasluniwch y siâp cyffredinol gan lenwi'r rhan fwyaf o'r papur.
3. Edrychwch am siapiau yn y goeden a nodwch ble mae'r haul yn bwrw cysgod ar y goeden. Ychwanegwch y siapiau afreolaidd hynny i'ch siâp cyffredinol.
4. Ychwanegwch eich boncyff.
5. Ychwanegwch arlliwiau tywyll, lliwiwch yr ardaloedd sydd bellach oddi wrth yr haul, cadwch ef yn fras ac yn afreolaidd.
6. Ychwanegwch arlliwiau canolig ac yna'r arlliwiau ysgafnaf sydd agosaf at yr ochr lle mae'r haul yn bwrw ei olau.
7. Gorffennwch trwy liwio'r boncyff ag arlliwiau tywyll, canolig, ysgafn gan ddilyn yr un egwyddorion yn ymwneud â'r golau fel uchod.
8. Beth am geisio cael ffotograff o'r goeden gan ddefnyddio'r i-pad. Beth am ychwanegu effeithiau gweledol – sepia/du a gwyn /pop art ac ati.

Dibenion Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae'r byd o'n hamgylch yn llawn pethau byw sydd yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Artistiaid Anhygoel

Gweithgaredd: Bardd Coed

Amser: 30 munud

Nodau Byd-eang: Nod Byd-eang 3 – Iechyd a Llesiant Da

Nod Byd-eang 15 – Bywyd ar y Tir

Nod: gwerthfawrogi harddwch ac elfen unigryw coed ar dir yr ysgol a chyflwyno hyn trwy'r gair llafar/ysgrifenedig

Adnoddau: Papur plaen

Pennau/Pensiliau

Clipfyrddau

Ffolder i gadw cerddi wedi eu cwblhau

Taflen adnoddau banc geiriau am goed os oes angen

Gwybodaeth Gefndir

Mae coed yn byw am gyfnod eithriadol o hir. Mae dros 70 math gwahanol o goed byw yn y DU. Gall coed derw, un o'r coed yr ydych wedi eu plannu, fod yn hen iawn iawn. Y dderwen hynaf yn y DU, efallai, yw Derwen Bow Thorpe yn Swydd Lincoln sydd tua 1,000 o flynyddoedd oed.

Mae cyswllt annatod gennym â choed. Mae ein llesiant yn gysylltiedig â nhw, ffaith yr ydym yn ei anghofio weithiau o ran y ffordd yr ydym yn byw ein bywydau yn y byd modern. Maent yn darparu ein ocsigen, yn glanhau'r aer, yn rhoi bwyd a chysgod i ni ymysg buddion niferus eraill.

Mae'r gweithgared hwn yn gyfle i ddatblygu gwerthfawrogiad a chysylltiad â choed ar dir yr ysgol a dymuniad, gobeithio, i ofalu amdanynt.

Gweithgaredd

1. Canlyniad y gweithgaredd hwn yw creu cerdd tîm am goeden benodol a'i hadrodd.
2. Mewn grwpiau o 6, gosodwch y disgyblion o amgylch coeden ar dir yr ysgol.
3. Gallai'r posibilïadau ar gyfer safleoedd gynnwys – gorwedd wrth fôn y goeden yn edrych i fyny tuag at y canopi/edrych ar y goeden o bellter/edrych ar gangen geinciog benodol/cofleidio ac aroglu'r goeden/edrych ar y gwreiddiau. Rydych yn cael y syniad, unrhyw le fydd yn creu golygfeydd gwahanol.
4. Heriwch y disgyblion i ddod yn gasglwyr geiriau yn ymwneud â'r hyn y gallant ei weld, ei glywed a'i deimlo. Gadewch nhw mor hir â phosibl i greu'r geiriau hyn. Mae 5 munud yn amser sylweddol. Anogwch iaith drosiadol hefyd.
5. Dewch at eich gilydd i gofnodi'r geiriau ar bapur.
6. Heriwch nhw i ddod yn grefftwyr geiriau a chreu cerdd fer gan ddefnyddio'r geiriau a gasglwyd. Defnyddiwch y daflen banc geiriau os oes angen.
7. Ar ôl creu ac ymarfer y gerdd, rhannwch hi trwy ei pherfformio.

Dibenion Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae mynegi ein hunain trwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Y Celfyddydau Mynegiannol

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan ddefnyddio'r synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig:

- Mae'r byd o'n hamgylch yn llawn pethau byw sydd yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Gwyddonwyr Gwych



Gweithgaredd: Chwilotwr Bywyd Gwylt

Amser: 30 munud

Nodau Byd-eang:

Nod Byd-eang 11 Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy

Nod Byd-eang 15 Bywyd ar y Tir

Nod: Archwilio'r cynefinoedd a'r anifeiliaid gwahanol sydd yn byw ar dir eich ysgol

Adnoddau:

Taflen adnabod yr RSPB

Clipfwrdd

Pennau/Pensiliau

Map/delwedd loeren o'r ysgol

Defnyddiol:

chwyddwydr, potiau trychfilod, taflenni gwyn/papur sgrap, brwsh meddal

Gwybodaeth gefndir

A wyddoch chi fod dros 25,000 o drychfilod yn byw yn y DU?

Gellir dod o hyd i drychfilod yn byw mewn llawer o fannau gwahanol. Mewn pentyrrau o ddail, yn y pridd, o dan greigiau, cerrig a phethau eraill, mewn coed, pyllau a choedwrych a mwy! Mae trichfilod yn creaduriaid bach fel mwydod, malwod, pry cop a phryfed. Yr enw gwyddonol am y creaduriaid hyn yw anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

Mae trychfilod yn hanfodol ar gyfer goroesi ac yn rhan bwysig o'n ecosystem. Bydd plannu coed yn annog mathau newydd ac ehangach o anifeiliaid yn eich ysgol. Mae'r goeden Dderwen yn gynefin arbennig o dda ar gyfer eich coedwig. Mae coed Derw yn darparu cynefin ar gyfer mwy o organebau nag unrhyw rywogaeth arall o goed yn y DU! Gall un derwen ddarparu cynefin ar gyfer 350 o rywogaethau gwahanol o bryfed, sydd yn wych fel ffynhonnell bwyd ar gyfer adar!

Gweithgaredd:

1. Ymglyfarwyddwch â thafleddi adnabod trychfilod yr RSPB [yma](#)
2. Mewn grwpiau o 3/4 dewiswch ardal o dir yr ysgol i'w harchwilio. Meddyliwch am archwilio ardaloedd/cynefinoedd gwahanol
3. Archwiliwch yr ardal a nodwch gymaint o drychfilod â phosibl. Cadwch gyfrif o bob un yr ydych yn ei ddarganfod.
4. Ewch yn ôl i'r dosbarth a thrafodwch y canlynol
 - Pa un o'r trychfilod sydd fwyaf cyffredin yn eich ysgol chi?
 - Pa ran o dir yr ysgol sydd yn gartref i'r rhan fwyaf o drychfilod? Pam?
 - Beth allwn ni ei wneud i ddiogelu eu cynefin ac annog mwy o fywyd gwylt ar dir yr ysgol?
5. Gan ddefnyddio delwedd loeren o'ch ysgol a'r tir ychwanegwch ddelweddau o'r holl drychfilod y gwnaethoch eu canfod a'u lleoliad i greu map o'r cynefinoedd.

Dibenion Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig

- Mae'r byd o'n hamgylch yn llawn pethau byw sydd yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Dyniaethau

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi ei ddylanwadu gan ymddygiad a gweithredoedd dynol.

Gwyddonwyr Gwych



Gweithgaredd: Ditectif Coed

Amser: 30 munud

Nodau Byd-eang:

Nod Byd-eang 11 Dinasoedd a Chymunedau

Cynaliadwy

Nod Byd-eang 15 Bywyd ar y Tir

Nod: Deall pwysigrwydd adnabod coed ac adnabod rhywogaethau coed ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

Adnoddau

[Taflen adnabod Coed Cadw](#)

Dewiswch y daflen fwyaf priodol ar gyfer yr adeg o'r flwyddyn.

Pennau

Pensiliau

Map/delwedd loeren o'r ysgol

Gwybodaeth Gefndir

A wyddoch chi, mae 60,000 o rywogaethau gwahanol o goed yn y byd? Mae 60 o'r rheiny yn gynhenid i Brydain.

Mae coed cynhenid yn bwysig am eu bod wedi addasu i dyfu yn ein hinsawdd ac yn hafan i lawer mwy o fywyd gwyllt na rhywogaethau estron. Yn anffodus, mae hanner coetir hynafol Prydain wedi diflannu ers y 1950au er ein bod wedi gweld cynnydd yng ngorchudd coetir yng Nghymru ers y 1900au.

Mae coed yn darparu cysgod, cynefinoedd i anifeiliaid, ocsigen ac adnoddau i fodau dynol. Gall gwybod sut i adnabod coed a gwybod y gwahaniaeth rhwng Derwen ac Ysgawen ein helpu i warchod a gofalu am y nwyddau pwysig hyn.

Gweithgaredd

1. Gan ddefnyddio map/delwedd loeren o dir yr ysgol, cerddwch o amgylch tir yr ysgol a nodwch leoliad yr holl goed yr ydych yn eu canfod.
2. Gan ddefnyddio'r [daflen adnabod hon](#) ceisiwch adnabod bob un o'r rhywogaethau ar eich map.
3. Labelwch eich map gyda'r rhywogaethau o goed a nodwyd. Gallech wneud hyn gyda delweddau neu trwy greu allwedd â chodau lliw ar gyfer eich map.
4. Ewch yn ôl i'ch dosbarth. A oedd unrhyw rywogaethau o goed nad oeddech yn eu hadnabod? Defnyddiwch eich sgiliau ditectif i ymchwilio ar-lein pa rywogaethau o goed y gallent fod ac ychwanegwch nhw i'ch map.

Dibenion Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig

- Mae'r byd o'n hamgylch yn llawn pethau byw sydd yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Dyniaethau

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, wedi ei ddylanwadu gan ymddygiad a gweithredoedd dynol.

Gwyddonwyr Gwych

Gweithgaredd – Coed a'ch ôl troed Carbon

Amser: 30 - 45 munud

Nodau Byd-eang: **Nod Byd-eang 13 Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd**

Nod Byd-eang 15 Bywyd ar y Tir

Nod: Deall rôl coed yn amsugno CO2 o'n hatmosffer.

Adnoddau

Pennau

Cyfrifiannell

Papur sgrap

[Taflen](#) a [cherdyn adnoddau](#) ôl troed Carbon Cyfoeth Naturiol Cymru

Gwybodaeth Gefndir

Mae coed yn chwarae rhan hanfodol yn lleihau faint o garbon deuocsid sydd yn ein atmosffer gan leihau effeithiau cynhesu byd-eang. Wrth i goed dyfu, maent yn amsugno CO2 ac yn rhyddhau ocsigen. Wrth i goed dyfu, byddant yn parhau i storio'r carbon sydd yn y pren.

Gweithgaredd

1. Gan ddefnyddio [taflen](#) a [cherdyn adnoddau](#) ôl troed Carbon Cyfoeth Naturiol Cymru llenwch y tabl yng ngham 1 i gyfrifo cyfanswm eich allyriadau carbon am flwyddyn. Defnyddiwch amcangyfrifon 1 aelod o'ch grŵp.
2. Ewch ymlaen i gamau 2 ac ar y daflen adnoddau cyfrifwch gylchedd y goeden sydd yn gyfwerth â'ch ôl troed carbon blynyddol.
3. Ewch i dir eich ysgol, a oes unrhyw goed ar dir eich ysgol â chylchedd digon mawr i amsugno eich ôl troed carbon blynyddol?

Dibenion Cysylltiadau â'r Cwricwlwm:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig

- Mae'r byd o'n hamgylch yn llawn pethau byw sydd yn dibynnu ar ei gilydd i oroesi

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mathemateg a Rhifedd

Datganiadau am yr hyn sydd yn bwysig

- Defnyddir y system rhifau i gynrychioli a chymharu'r berthynas rhwng niferoedd a meintiau.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

